# Dewch yn Dditectif Diogelwch Dŵr!

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ditectifs Diogelwch Dŵr

**Amcan:** Addysgu'r plant am ddiogelwch dŵr a'r Cod Diogelwch Dŵr, a'u hannog i adnabod peryglon posibl mewn dyfroedd lleol a hybu arferion diogel.

**Deunyddiau angenrheidiol:**

- Map o'r ardal leol
- Marcwyr neu sticeri
- Llyfrau nodiadau a phensiliau
- Copïau printiedig o'r Cod Diogelwch Dŵr
- Cyflenwadau gwneud posteri (papur, marcwyr, etc.)

**Cyfarch ac Amcan:** Rhowch groeso i'r disgyblion ac esboniwch y byddan nhw'n dod yn "Dditectifs Diogelwch Dŵr" heddiw. Eu tasg nhw yw dysgu am ddiogelwch dŵr a helpu i gadw eu cymuned yn ddiogel.

**Trafodaeth:** Ailadroddwch pam mae diogelwch dŵr yn bwysig a chyfeiriwch at y wers flaenorol ar ddiogelwch dŵr gyda nhw. Gofynnwch i'r disgyblion a ydyn nhw'n adnabod unrhyw ddyfroedd ger eu cartrefi neu eu hysgol (e.e. afonydd, llynnoedd, pyllau, traethau).

### Gweithgaredd 1: Adnabod Dyfroedd Lleol

**Archwilio'r Map:**

Rhowch fap o'r ardal leol i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw farcio neu osod sticeri ar y map lle maen nhw'n gwybod bod yna ddŵr. Gall y rhain fod yn byllau nofio, camlesi, llynnoedd, afonydd, y môr neu hyd yn oed ardaloedd sy'n gorlifo.

Ystyriwch beth allai fod yn fwy peryglus yn lleol i chi e.e. porthladd, afon gyda chored, cronfa ddŵr gyda glannau serth: tynnwch sylw'r plant at y rhain.

**Trafodaeth Grŵp:**

Gofynnwch i bob grŵp rannu eu canfyddiadau gyda'r dosbarth. Trafodwch pam y gallai'r dyfroedd yma fod yn beryglus (e.e. ceryntau cryf, dŵr dwfn, glannau llithrig).

# Dewch yn Dditectif Diogelwch Dŵr!

diogelwch dŵr Cymru
water safety Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Gweithgaredd 2: Deall y Cod Diogelwch Dŵr

### Cyflwyniad i'r Cod Diogelwch Dŵr:

Rhannwch gopïau printiedig o'r Cod Diogelwch Dŵr. Darllenwch drwyddo gyda'ch gilydd, gan esbonio pob pwynt a pham mae'n bwysig.

1. Stopiwch a Meddyliwch
2. Arhoswch gyda'ch gilydd
3. Arnofiwch
4. Ffoniwch 999 mewn argyfwng

### Gwaith Ditectif:

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am sut mae'r Cod Diogelwch Dŵr yn berthnasol i'r dyfroedd maen nhw wedi'u henwi. Pa beryglon penodol y gall fod angen iddyn nhw fod yn ymwybodol ohonyn nhw ym mhob lleoliad?

## Gweithgaredd 3: Creu Posteri Diogelwch

### Creu Poster:

Mewn grwpiau, gofynnwch i'r disgyblion greu posteri sy'n hybu diogelwch dŵr. Anogwch nhw i gynnwys awgrymiadau o'r Cod Diogelwch Dŵr ac unrhyw gyngor penodol ar gyfer y dyfroedd lleol sydd wedi'u trafod.

**Awgrym:** Defnyddiwch yr eiconau o'r arwyddion diogelwch dŵr

### Cyflwyniad:

Mae pob grŵp yn cyflwyno'u poster i'r dosbarth, gan esbonio'r awgrymiadau diogelwch maen nhw wedi'u cynnwys a pham maen nhw'n bwysig.

Casgliad (5 munud)

### Adolygu a Myfyrio:

Crynhowch bwyntiau allweddol y wers. Gofynnwch i'r disgyblion beth wnaethon nhw ei ddysgu am ddiogelwch dŵr a sut y gallan nhw helpu pobl eraill i gadw'n ddiogel.

### Anogaeth:

Anogwch y disgyblion i rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau. Atgoffwch nhw fod bod yn Dditectif Diogelwch Dŵr yn golygu bod yn ymwybodol bob amser a helpu pobl eraill i gadw'n ddiogel o amgylch dŵr.